CYNGOR TREF RHUTHUN
Gwobr Dinesydd Da'r Flwyddyn, Rhuthun
Gwobr Person Ifanc y Flwyddyn, Rhuthun
Gwobr Grŵp Cymunedol y Flwyddyn, Rhuthun

Meini prawf

i) Ni all Cynghorwyr Tref neu Swyddog Cyngor enwebu unigolyn ar gyfer y wobr na derbyn y wobr.

ii) Gellir cyflwyno'r gwobrau Dinesydd Da'r Flwyddyn a Pherson Ifanc y Flwyddyn i unigolion **sy'n byw yn Rhuthun yn unig**, a'r Wobr Grŵp Cymunedol y Flwyddyn i grŵp **wedi ei leoli yn ac sy'n gweithredu yn Rhuthun.**

iii) Ni all yr enwebydd na'r eilydd fod yn bartner nac yn berthynas i'r ymgeisydd.

iv) Rhaid i'r ymgeisydd / Grŵp Cymunedol gael ei enwebu am waith gwirfoddol yn y dref.

v) Rhaid i'r ymgeisydd / Grŵp Cymunedol fod wedi gwneud cyfraniad arwyddocaol i ansawdd bywyd yn Rhuthun.

vi) Bydd angen dychwelyd ffurflenni enwebu (i'w cael o swyddfa'r Cyngor Tref neu ar y wefan) i swyddfa'r Cyngor Tref erbyn **29 Mawrth 2019**.

vii) Gall fod yn ofynnol i'r enwebydd **neu'r** eilydd ddod i gyfarfod o Bwyllgor Gwobrwyo'r Dinesydd Da a siarad ar ran eu hymgeisydd, os bydd angen.

viii) Cysylltir gyda'r rhai a enwebwyd i sicrhau y byddent yn barod ac ar gael i dderbyn y Wobr.

ix) Wedyn bydd panel yn cynnwys aelodau o Bwyllgor Gwobrwyo'r Dinesydd Da yn gwneud argymhellion i gyfarfod nesaf y Cyngor Tref.

x) Nid oes cyfyngiad ar nifer y gwobrau ac nid oes rhaid gwobrwyo.

xi) Bydd y wobr yn cynnwys Tystysgrif A4 ar bapur ansawdd uchel wedi ei fframio a £100 tuag at grŵp / prosiect / achos / elusen ddewisedig yr ymgeisydd.

xii) Bydd y gwobrau yn cael eu cyflwyno yng Nghyfarfod Blynyddol y Cyngor Tref ar **13 Mai 2019**.

Ionawr 2019